



Etholiad i Gymrodoriaeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru – 2022-23

Canllawiau ar gyfer Enwebiadau Cymrodyr er Anrhydedd

CYFLWYNIAD

MATHAU O GYMRODORIAETH

Bob blwyddyn, mae'r Gymdeithas yn ethol Cymrodyr a Chymrodyr er Anrhydedd.

Mae gennym [dros 650 o Gymrodyr 'cyffredin'](#) ac rydym yn ethol tua 50 bob blwyddyn. Mae ganddynt yr hawl i ddefnyddio'r llythrennau FLSW ar ôl eu henwau, ac fe'u diffinnir fel a ganlyn:

*Bydd y Cymrodyr yn **unigolion sy'n preswyllo yng Nghymru, unigolion a anwyd yng Nghymru ond sy'n preswyllo yn rhywle arall ac eraill sydd â chysylltiad penodol â Chymru**; ym mhob achos bydd ganddynt hanes amlwg o ragoriaeth a chyflawniad mewn un o'r disgyblaethau academaidd neu, os ydynt yn aelodau o'r proffesiynau, y celfyddydau, diwydiant, masnach neu wasanaethau cyhoeddus, byddant wedi gwneud cyfraniad nodedig i fyd dysg.*

Ar hyn o bryd, mae gennym [ddeuddeg o Gymrodyr er Anrhydedd](#), ac rydym yn ethol un neu ddau bob blwyddyn. Maen nhw'n defnyddio'r llythrennau HonFLSW ar ôl eu henwau, ac fe'u diffinnir fel a ganlyn:

Gall Cymrodyr er Anrhydedd fod o unrhyw genedl, cefndir neu faes arbenigedd, cyhyd â bod modd dangos eu bod wedi:

- *Gwneud cyfraniad gwirioneddol ragorol i fyd dysg, a*
- *Sefydlu enw da a statws byd-eang yn eu maes*

Mae ethol i'r ddau fath o Gymrodoriaeth yn gydnabyddiaeth gyhoeddus o ragoriaeth, ond mae'r safon ar gyfer Cymrodoriaeth er Anrhydedd yn arbennig o uchel. Mae'r broses o ethol yn wahanol i'r broses ar gyfer Cymrodyr cyffredin, fel y nodir ar y dudalen nesaf.

Mae Cymrodyr yn cael eu hannog i ystyried Cymrodyr er Anrhydedd posibl o bob rhan o'r byd, gan gynnwys Cymru.

Gellir dehongli "cyfraniad gwirioneddol ragorol i fyd dysg" yn eang. Gall hyn gynnwys enwebeion sydd:

- Wedi gwneud cyfraniad uniongyrchol eithriadol i'r broses addysg (drwy ymchwil, addysgu neu arweinyddiaeth addysgol)
- Wedi gwneud cyflawniadau sylweddol mewn rôl arweinyddiaeth ryngwladol
- Wedi defnyddio eu doniau a'u dylanwad i gael effaith eithriadol ar gymdeithas yn fwy eang, e.e. fel model rôl uchel ei barch
- Wedi rhagori yn eu maes dewisol mewn ffordd sydd wedi cyfrannu'n anuniongyrchol at ddysgu, e.e. drwy ddylanwadu'n sylweddol ar eu maes neu ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol

Gall Cymrodyr er Anrhydedd ddod o gefndiroedd academaidd neu gefndiroedd sydd ddim yn academaidd.



RÔL CYMRODYR ER ANRHYDEDD

Mae Cymrodyr er Anrhydedd yn helpu'r Gymdeithas i wella ei bri a'i henw da fel academi genedlaethol Cymru. Ar ôl iddynt gael eu hethol, maen nhw'n aelodau am oes.

Er nad oes unrhyw ddisgwyliadau penodol ynghlwm â'r wob, byddwn yn gwahodd pob un o'r Cymrodyr Anrhydeddus i gymryd rhan wrth helpu i gyflawni ein nod o hyrwyddo dadl a dysg ehangach yng Nghymru, wrth hefyd godi proffil y Gymdeithas, er enghraifft, drwy ddarlith gyhoeddus neu gyflwyno medal.

Ni ofynnir i Gymrodyr er Anrhydedd i dalu ffi derbyn neu ffi tanysgrifio. Nid oes ganddynt unrhyw hawl i bleidleisio ar fusnes y Gymdeithas, ond mae ganddynt hawl i dderbyn unrhyw freintiau eraill sy'n ymwneud â bod yn Gymrawd.

Y BROSES ETHOL

CAM 1: TYSTYSGRIF ARGYMELL

Mae Cymrawd yn gallu cyflwyno Tystysgrif Argymhelliad ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Ffurflen enwebu gychwynnol fer yw hon, y gellir ei llawrlwytho o www.cymdeithasddysgedig.cymru/cymrodoriaeth/dod-yn-gymrawd/ffurflenni-enwebu/

Mae'n rhaid i'r Cynigydd (y Cymrawd sy'n gwneud yr enwebiad) gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- Enw a theitl yr enwebiad
- Enwau dau Eilydd, sydd yn gorfod bod yn Gymrodyr hefyd
- Datganiad o argymhelliad (uchafswm o 200 o eiriau) yn amlinellu cyflawniadau'r enwebai

Unwaith y bydd wedi'i chwblhau, dylai'r cynigydd anfon y Dystysgrif i nominations@lsw.wales.ac.uk.

Er mwyn i enwebiad gael ei ystyried yng nghylch etholiadol 2022-23, mae'n rhaid i ni dderbyn y Dystysgrif Argymhelliad erbyn **dydd Gwener 30 Medi 2022**.

Nodyn pwysig: yn wahanol i enwebiadau ar gyfer Cymrodoriaeth gyffredin, **ni ddylai'r** Cynigydd a'r Eilwyr hysbysu'r Enwebai eu bod nhw'n cael eu hargymell. Bydd y Prif Weithredwr yn gwneud hynny yng Ngham 4, ar ôl i'r Cynog gymeradwyo enwebiad.

CAM 2: ASESAD CYCHWYNNOL

Byddwn yn anfon pob Tystysgrif Argymhelliad i'r Pwyllgor Cymrodoriaeth. Mae'r pwyllgor hwn yn ystyried pob mater sy'n ymwneud ag enwebu ac ethol Cymrodyr. Mae'n cynnwys Is-Lwyddion y Gymdeithas a nifer o Gymrodyr eraill, sy'n cynrychioli ystod o arbenigedd.

Bydd y Pwyllgor Cymrodoriaeth yn cynnal archwiliad cychwynnol o'r Tystysgrifau Argymhelliad. Os oes angen arbenigedd ychwanegol, bydd yn ceisio cymorth gan gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu perthnasol. Bydd wedyn yn rhoi rhestr wedi'i rancio o'r enwebeion arfaethedig i Gyngor y Gymdeithas.



CAM 3: CYTUNO AR ENWEBEION POSIBL

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2022, bydd y Cyngor yn ystyried y rhestr wedi'i rancio a ddarperir gan y Pwyllgor Cymrodoriaeth. Bydd yn cytuno pa un o'r unigolion y gellir cysylltu â nhw yn ffurfiol i fod yn enwebeion; fel arfer, bydd hyn yn uchafswm o ddau enwebai ynghyd ag un enwebai wrth gefn.

Nodwch na fydd aelod o'r Cyngor sy'n gweithredu fel Cynigydd ar ran Cymrawd er Anrhydedd o bosibl yn cymryd rhan yn y drafodaeth hon.

CAM 4: FFURFLEN ENWEBU

Nawr, gellir cwblhau'r Ffurflen Enwebu lawn. Bydd y Prif Weithredwr yn gwneud y canlynol:

- Hysbysu'r Enwebai am benderfyniad y Cyngor, gofyn a ydynt yn derbyn yr enwebiad, a nodi dyddiad CCB a Chinio Blynnyddol y Gymdeithas
- Gofyn i'r Enwebai gwblhau ei adran o'r ffurflen
- Casglu'r llofnodion angenrheidiol gan y Cynigydd a'r Eilwyr

Efallai y gofynnir i'r Cynigydd gynorthwyo â'r gwaith o gyfathrebu â'r Enwebai yn ystod y cam hwn.

Er mwyn i enwebiad gael ei ystyried yn y cylch etholiadol 2022-23, mae'n rhaid i ni dderbyn y Ffurflen Enwebu wedi'i chwblhau erbyn **dydd Mercher, 1 Mawrth 2023**.

CAM 5: YSTYRIED ENWEBIADAU YN FFURFIOL

Bydd y ffurflenni wedi'u cwblhau yn cael eu hanfon i'r Cyngor, a fydd yn eu hystyried yn ei gyfarfod arbennig ym mis Mawrth 2023. Dyma'r un cyfarfod lle caiff enwebiadau ar gyfer Cymrodoriaeth gyffredin eu cwblhau.

CAM 6: ETHOL CYMRODYR ER ANRHYDEDD

Ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Cyngor, bydd enwebeion ar gyfer Cymrodoriaeth gyffredin ac er Anrhydedd yn cael eu cynnwys mewn pleidlais o'r holl Gymrodyr presennol. Ar y cam hwn, byddwn yn hysbysu'r Enwebeion yn anffurfiol eu bod nhw'n rhan o'r bleidlais.

AR ÔL YR ETHOLIAD

Byddwn yn ysgrifennu at Gymrodyr er Anrhydedd newydd i roi gwybod iddynt am eu llwyddiant. Byddwn yn eu gwahodd yn ffurfiol i'r CCB a'r cinio blynnyddol, sydd fel arfer yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod ym mis Mai.

Byddwn yn gwahodd pob Cymrawd Anrhydeddus i gymryd rhan mewn helpu i gyflawni ein nod o hyrwyddo trafodaeth a dysgu ehangach yng Nghymru.

Os na fydd enwebai wedi symud ymlaen i'r etholiad, bydd ei Dystysgrif o Argymhelliad yn ddilys i'w hystyried am bum mlynedd arall. Yn ystod y cyfnod hwn, dylai'r Cynigydd ddiweddarau'r Dystysgrif.

MEINI PRAWF ETHOL



Bydd y meini prawf a'r mesur o arbenigrwydd wrth reswm yn amrywio rhwng gwahanol ddisgyblaethau a meysydd cyflawniad. Fodd bynnag ym mhob achos rydym ni'n diffinio rhagoriaeth yn nhermau:

- Cyfraniadau'r Enwebai
- Effaith y cyfraniadau hyn ar ddysg yng Nghymru ac yn ehangach
- Gwreiddioldeb dulliau'r Enwebai yn y ddisgyblaeth neu'r proffesiwn, a'r cyfraniad at fywyd academiaidd a chymdeithas yn ehangach
- Statws proffesiynol yr Enwebai ymhlith ein Cymrodyr cyfredol a thu hwnt
- Tystiolaeth o enw da cenedlaethol/rhyngwladol

Fel y nodir ar t. 1, bydd Cymrodyr er Anrhydedd wedi gwneud cyfraniad eithriadol iawn, ac wedi sefydlu enw da a statws o'r radd flaenaf yn eu maes.

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Mae gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru ymrwymiad cryf tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y Gymdeithas yn groesawgar ac yn gynhwysol, ac ni fydd unrhyw fath o wahaniaethu yn dderbyniol gennym.

Rydym yn gweithio tuag at Gymrodoriaeth fwy amrywiol, gyda mwy o aelodaeth o'r holl grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio'n benodol ar gynyddu enwebiadau merched.

Rydym yn annog enwebiadau o'r byd academiaidd, busnes, y proffesiynau, y cyhoedd a'r trydydd sector.

Rydym yn cydnabod y gellir dangos rhagoriaeth dros ystod o hydroedd gyrfu, ac nid oes gan ein Pwyllgorau Craffu ddisgwyliad penodol o ran oedran Cymrawd. Yr hyn sy'n bwysig yw bod enwebeion yn cwrdd â'n Meini Prawf Rhagoriaeth. Trwy ganolbwyntio ar lwyddiannau enwebeion, statws proffesiynol a chyfraniadau ehangach, ein nod yw sicrhau bod ein Cymrodyr yn enghreifftiau awdurdodol o oreuon Cymru ar draws pob maes dysgu.

Croesawir enwebiadau yn Gymraeg a/neu Saesneg.

CYSYLLTU Â NI

Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Cofrestra'r Brifysgol
Rhodfa'r Brenin Edwad VII
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NS
Cymru

www.cymdeithasddysgedig.cymru

nominations@lsw.wales.ac.uk

+44 (0)29 2037 6954